



Siarad Iechyd
Siarad. Gwranddo. Gwneud.
Talking Health
Speak. Listen. Act.

Ymunwch â
Chynllun Cynnwys
ac Ymgysylltu
Siarad Iechyd
Talking Health

*Gyda'n gilydd gallwn
wneud gwahaniaeth*



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Sut alla' i gymryd rhan?

Gallwch gymryd rhan drwy danysgrifio i:

Gylchlythyron

Gallwch dderbyn cylchlythyrau rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am wasanaethau gofal iechyd a gweithgareddau i aelodau

Holiaduron/Arolygon

Gallwch roi eich sylwadau mewn holiaduron neu arolygon, neu rannu'ch barn ar wasanaethau sy'n bwysig i chi

Panel Darllenwyr

Gallwch roi sylwadau am ein gwybodaeth ysgrifenedig megis taflenni er mwyn sicrhau bod ein cyhoeddiadau'n glir a hawdd i gleifion a'r cyhoedd eu deall

Grwpiau Diddordeb

Gallwch dderbyn gwahoddiadau i ddigwyddiadau a grwpiau ffocws er mwyn rhannu'ch barn

Rhoi sylwadau ar Ddogfennau Ymgynghori Lleol neu Genedlaethol

Gallwch rannu eich barn a'ch sylwadau pan fo gwasanaethau'n cael eu hadolygu

Gallwch ddewis:

- sut yr hoffech gymryd rhan a newid hyn unrhyw bryd
- cael gwybodaeth drwy'r post neu'n electronig

Sut alla' i ymuno?

Bydd angen llenwi ffurflen gais Siarad Iechyd/Talking Health drwy naill ai lenwi'r ffurflen ar lein, neu gysylltu â ni i gael copi.

E-bost:

siaradiechyd@wales.nhs.uk

Ffôn:

01554 899 056

Ysgrifennwch atom ni:

FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD

Gwefan:

www.siaradiechyd.wales.nhs.uk

Os oes angen y daflen hon arnoch mewn fformat arall, er enghraifft Braille neu brint bras, cysylltwch â ni.

